CEFNDIR

# JAHILIYYA

Yn gyffredinol, cyfeirir at gyfnod Muhammad fel Arabia yn y cyfnod cyn-Islamaidd. Fodd bynnag, yr enw a ddefnyddir gan Fwslimiaid wrth gyfeirio ato yw jahiliyya, sy'n golygu "anwybodaeth". Roedd credoau ac arferion y cyfnod yn gwbl groes i'r hyn roedd ei angen er mwyn ymostwng i Allah. Crefydd, moesoldeb, strwythur cymdeithasol, gwleidyddiaeth ac anhrefn cyffredinol y boblogaeth oedd sail y disgrifiad hwn.

Roedd crefydd yn amldduwiol, yn animistaidd ac wedi'i seilio ar drachwant dyn. Roedd pobl yn gwerthu eilunod, gan gredu y byddent yn peri i'w gelynion eu hofni neu'n rhoi amddiffyniad i lwythi unigol. Roedd crefydd yn ymarferol, a thrwy aberth a defodau roedd yn diwallu anghenion y boblogaeth anwybodus; nid oedd yn weithgaredd diwinyddol â gwreiddiau dwfn o gwbl.

Roedd anfoesoldeb yn rhemp, a hynny'n bennaf oherwydd y system ffiwdal, lle roedd bywyd yn ddiwerth a lle nad oedd lladd yn cael ei ystyried yn anfoesol. Masnachu i wneud elw ac ysbeilio llwythi eraill oedd y norm; yn wir, nid oedd lladrata'n cael ei ystyried yn anfoesol oni bai eich bod yn dwyn nwyddau gan berthnasau.

Roedd y cryf yn rheoli a'r gwan yn cael eu gormesu a'u hecsbloetio. Roedd tlodi'n cael ei anwybyddu a pheth anghyffredin oedd elusen. Yn aml iawn, byddai'r boblogaeth yn cael ei rheoli drwy ladd babanod benywaidd, ac ychydig iawn o werth oedd i fywyd merch. Yn gyffredinol, nid oedd merched, mwy na chaethweision, yn cael eu trin yn dda iawn ac nid oedd ganddynt hawliau dynol na hawliau cyfreithiol.

O safbwynt gwleidyddiaeth, nid oedd trefn lywodraethu bendant. Roedd rheolau yno, ond nid oeddent wedi eu hysgrifennu a'u gosod ar sylfaen gadarn; roeddent hefyd yn gyfnewidiol ac yn anghyson.

Mae llawer o lyfrau, sydd wedi eu hysgrifennu o safbwynt undduwiol neu Fwslimaidd, yn rhoi adroddiadau negyddol yn unig am jahiliyya. Ond nid yw hyn yn golygu bod bywyd yn Arabia yn y cyfnod cyn-Islamaidd yn gwbl lygredig ac yn ddrwg i gyd. Roedd gan y gymdeithas lwythol rai rhinweddau, megis anrhydedd, dewrder, lletygarwch a haelioni. Roedd yna hefyd rai agweddau ar gymdeithas lle nad oedd gormesu merched yn arferol, ac un enghraifft o hyn yw Khadijah.